# Y Pwyllgor ar yr Ymchwiliad i'r Achosion E-coli yng Nghymru

## Cofnodion (E.Coli(2)-01-05)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 17 Tachwedd 2005

### Amser y cyfarfod: 9:00am tan 11:30am

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Jocelyn Davies (Cadeirydd) | Dwyrain De Cymru |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Karen Sinclair | De Clwyd |

### Yn bresennol

| Enw | Yn cynrychioli (os yn briodol) |
|---|---|
| Yr Athro Hugh Pennington | |
| Steve Thomas | Cyfarwyddwr, CLILC |
| Susan Perkins | Swyddog Arweiniol LACORS, CLlLC |
| Dr Llewelyn | CLILC |

| | |
|---|---|
| Dr Mike Simmons | Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Peter Clarke | Comisiynydd Plant Cymru |
| Jeff Godfrey | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru |

## Staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad |

## Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a datgan buddiannau (9:00 - 9:05)

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na datganiadau buddiant.

1.2 Byddai cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Pwyllgor.

## Eitem 2: Trafodaeth gychwynnol gyda'r Athro Pennington

2.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Athro Pennington amlinellu ei syniadau ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad, cyn symud ymlaen i’w trafod.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r cylch gorchwyl fod mor eang â phosibl.

## Eitem 3: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### Papur: E.Coli (2) 02-05 (p1)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'i gydweithwyr i'r Pwyllgor, gan ofyn iddo gyflwyno'i bapur, a'i drafod gyda'r Pwyllgor.

## Eitem 4: Cylch Gorchwyl yr Ymchwiliad: Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol

### Papur: E.Coli (2) 02-05 (p2)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Dr Mike Simmons i'r cyfarfod. Cyflwynodd ei bapur, ac ymatebodd i gwestiynau'r Aelodau.

## Eitem 5: Cylch gorchwyl yr Ymchwiliad: Y Comisiynydd Plant

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Peter Clarke i'r Pwyllgor, gan ofyn iddo amlinellu ei syniadau ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad. Cyflwynodd ei syniadau ac ymatebodd i gwestiynau'r Aelodau.

## Eitem 6: Y pwerau y gellid eu dirprwyo i’r Prif Weinidog (ac yna i staff)

### Papur: E.Coli (2) 02-05 (p3)

6.1 Croesawodd y Cadeirydd Jeff Godfrey a roddodd gyngor ar y pwerau y gellid eu dirprwyo o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005.

## Eitem 7: Ymatebion a dderbyniwyd gan Lywodraethwyr Ysgolion

### Papur: E.Coli (2) 02-05 (p4)

7.1 Cytunodd y Pwyllgor fod yr ymatebion a dderbyniwyd yn cyd-fynd â’r argymhellion a dderbyniwyd gan sefydliadau eraill ar gyfer y cylch gorchwyl.

7.2 Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd iddynt dderbyn copïau o unrhyw ymatebion pellach gan Lywodraethwyr, ac awgrymwyd y dylid gwahodd llywodraethwyr ysgolion i gyflwyno tystiolaeth i’r ymchwiliad.

## Eitem 8: Trafodaeth gyffredinol ar y dystiolaeth a'r casgliadau

8.1 Cafwyd trafodaeth gyffredinol, a chytunwyd ar strwythur yr adroddiad a fyddai'n mynd gerbron y Cyfarfod Llawn i'w gymeradwyo.

8.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r cylch gorchwyl fod yn eang, gan gynnwys y sefyllfa a arweiniodd at yr achosion o E-coli yn Ne Cymru, y modd yr ymdriniwyd â’r achosion, y goblygiadau, ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.

8.3 Byddai Cwnsler y Cynulliad yn rhoi cyngor ar ddrafftio’r cynigion i'w cymeradwyo gan y Cyfarfod Llawn, y pwerau y gellid eu dirprwyo, penodi Cadeirydd a'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Ymchwiliad.